Greater emphasis is now being placed on keeping the elderly within the community and it is considered that more of the County's financial resouces should be devoted to "sheltered housing" rather than residential homes. It is felt, however, that where residential homes for the aged are envisaged that there should be close liaison with district housing authorities so that detailed consideration should be given to the linking of sheltered housing with this type of residential establishment. It is probable that this policy could be pursued with greater vigour following the amalgamation of the four district authorities in April, 1974.

HOUSING OF THE HANDICAPPED

The Council in dealing with their housing responsibilities, must cater for all housing needs. In particular the needs of the physically handicapped must be considered and this is laid down in "The Chronic Sick and Disabled Persons Act, 1970". Most of the Act, which caters for the welfare of the aged and handicapped is administered by the Social Services Department of the County Council. The housing needs of the disabled though, is a specific duty imposed on district housing authorities.

It is very pleasing to report that the Council have been abreast of current thinking in this field, and for years have carried out, in conjunction with the County Welfare Authority, special adaptations in council dwellings to meet the varying needs of council tenants suffering from different disabilities. Furthermore, bungalows have been specially constructed and adapted for the physically handicapped and during the year under review, four were completed, namely two at Drefach, one at Abergwili, and one at St. Clears. The Council have now provided a total number of 7 bungalows of this type.

In providing these bungalows, one is aware not only of the benefit that will accrue to the handicapped person but also to the person or persons who care for the handicapped. Words cannot express adequately the admiration one feels for the selfless dedication and devotion of the people that one comes across in the way they care for the handicapped members of the family, and also to the unflinching spirit of the handicapped persons themselves.

HOMELESS FAMILIES

The Council, in conjunction with the County Council Welfare Committee, have made available a private house "Brithdir" at Cefneithin. It is used for the purpose of housing displaced or homeless families, the rent of which, while the house is unoccupied, is paid by

hŷn" oherwydd os yw'r dywediad "'dyn ni erioed wedi'i chael hi mor dda" yn wir, i bwy mae'r diolch ond i'r henoed yn ein cymdeithas.

Rhoir llawer mwy o bwyslais nawr ar gadw'r henoed o fewn y gymdeithas, ac ystyrir y dylid gwario mwy o gyfalaf y Sir ar y "tai amnodd" yn hytrach nag ar Gartrefi Preswyl. Teimlir fodd bynnag, lle ystyrir cael cartrefi preswyl i'r henoed, dylai fod cydweithrediad agos ag awdurdodau tai y dosbarth, fel y gellid rhoi ystyriaeth lawn i gysylltu tai amnodd gyda'r math hwn o sefydliad preswyl. Mwy na thebyg y gellid dilyn y polisi hwn yn fwy egnïol ar ôl uno'r pedwar awdurdod dosbarth yn Ebrill 1974.

DARPARU TAI AR GYFER Y RHAI DAN ANFANTAIS

Rhaid i'r Cyngor wrth ddelio â'u dyletswyddau tai, ddarparu ar gyfer yr holl anghenion. Rhaid ystyried yn arbennig anghenion y rhai dan anfantais gorfforol, ac mae hyn wedi ei nodi yn "Neddf y Cronig a Phersonau Anabl, 1970". Gweinyddir y rhan fwyaf o'r Ddeddf sy'n gofalu am anghenion yr henoed a'r rhai dan anfantais, gan Adran Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor Sir. Dyletswydd arbennig yr awdurdodau tai lleol fodd bynnag yw darparu tai ar gyfer yr anabl.

Pleser yw dweud fod y Cyngor wedi cadw i fyny â datblygiadau cyfoes yn y maes hwn, ac am flynyddoedd wedi cario allan mewn cydweithrediad ag Awdurdod Llês y Sir, addasiadau arbennig mewn tai cyngor i gyfarfod ag anghenion amrywiol tenantiaid y cyngor sy'n dioddef oddi wrth wahanol anabledd. Hefyd adeiladwyd ac addaswyd byngalos yn arbennig ar gyfer y rhai dan anfantais gorfforol ac yn ystod y flwyddyn hon, cwblhawyd pedwar o'r rhain, dau yn Drefach, un yn Abergwili, ac un yn San Clêr. Mae'r Cyngor yn awr wedi darparu cyfanrif o saith byngalo o'r math hwn.

Wrth ddarparu'r byngalos hyn mae manteision nid yn unig i'r person dan anfantais ond hefyd i'r person neu'r personau sy'n gofalu am y bobl hyn. Ni all geiriau fynegi'r edmygedd a deimlir at ymgysegriad a llwyr ymroddiad y bobl sy'n gofalu am yr aelodau hynny o'r teulu sy dan anfantais, ac hefyd i ysbryd dewr y personau eu hunain sy dan anfantais.

TEULUOEDD DI-GARTREF

Mae'r Cyngor mewn cydweithrediad â Phwyllgor Llês y Cyngor Sir, wedi darparu tŷ preifat "Brithdir" yng Nghefneithin. Defnyddir e ar gyfer cartrefu pobl sy wedi gorfod symud o'u tai, neu ar gyfer teuluoedd di-gartref, a thelir y rhent tra bod y tŷ yn wag gan Adran

the County Welfare Department. The house is at present occupied by a family displaced from a housing site at Carway.

HOUSING MANAGEMENT

Considerable thought was given during the year to the question of improving the Council's housing maintenance section. For a number of years, tenants have been complaining regarding the lengthy waiting period for general repairs to their dwellings. During the latter half of the year an inter-departmental sample survey on "planned maintenance" was undertaken on two housing sites at Drefach which included a total of 74 dwellings. On the basis of this survey it was estimated that it would take 2.26 years to complete the general essential repairs to all the houses in the Council's ownership. As a result of this exercise, the Council felt that this would be an unreasonable period to complete the first cycle of essential repairs, and consequently it was decided to increase the number of craftsmen and labourers in the housing maintenance section in order to accelerate the programme.

The housing maintenance section is split up into two units for operational purposes i.e. a mobile workshop gang and an emergency gang, the latter, as the name implies, deals with the essential repairs that cannot be left unattended. The mobile workshop now operates on a planned maintenance scheme and detailed pre-inspections are undertaken prior to the workshop being moved on site. This entails considerable amount of administrative and inspection work by the Technical Assistants involved in the Housing and Engineer's Department. However, it is considered most essential because it obviates essential repairs being overlooked.

With the advent of work study incentive schemes for bricklayers and carpenters, during the first half of the year, the repairs programme has been considerably accelerated and very heavy inroads were, and are, being made into the backlog of all repair work. An incentive scheme was already operational for the painting section, and the procedure is that the painting gang follows the mobile workshop on site. There has been a considerable increase in productivity in the housing maintenance section as a result of the incentive schemes which will be of ultimate benefit to the Council, tenants and employees concerned.

The Council again availed themselves of a £20,000 loan from the Welsh Office in order to provide central heating schemes in Council houses. The tenants have a choice of either gas, electricity or solid fuel central heating and the Council supervises the installations carried out by the Wales Gas Board, South Wales Electricity Board and Messrs. Everwarm Homes Ltd., in conjunction with the

Llês y Sir. Ar hyn o bryd mae teulu yno a symudwyd o'u tŷ yng Ngharway.

RHEOLI TAI

Yn ystod y flwyddyn rhoddwyd dipyn o ystyriaeth i'r cwestiwn o wella'r adran cynhaliaeth tai. Mae tenantiaid wedi bod yn cwyno oherwydd yr aros hir cyn cael atgyweirio'u tai. Yn ystod hanner olaf y flwyddyn, gwnaed arolwg enghreifftiol rhyng-adrannal ar "gynhaliaeth wedi ei gynllunio" ar ddwy safle tai yn Drefach yn cynnwys 74 o dai. Ar sail yr arolwg hwn gwnaed amcangyfrif y cymerid 2.26 blwyddyn i gwblhau'r atgyweiriadau cyffredinol oedd angen eu gwneud yn yr holl dai Cyngor. Teimlai'r Cyngor fod hwn yn gyfnod afresymol o hir, ac felly penderfynwyd cael mwy o grefftwyr a llafurwyr yn yr adran cynhaliaeth tai i gyflymu'r gwaith.

Mae dau grŵp gwaith yn yr adran cynhaliaeth tai, gang gyda'r siop-waith deithiol, a gang i wneud gwaith brys sy'n delio ag atgyweiriadau y dylid eu gwneud cyn gynted ag sy'n bosibl. Cynllunir ymlaen llaw yn awr y gwaith a wneir gan y siop-waith, a gwneir arolygiadau manwl cyn i'r gweithwyr symud i'r safle. Golyga hyn lawer o waith gweinyddol a gwaith arolygu gan y Cynorthwywyr Technegol sy'n gysylltiedig â'r Adran Tai ac Adran y Peiriannydd. Fodd bynnag, ystyrir hyn yn waith pwysig iawn oherwydd mae'n osgoi esgeuluso atgyweiriadau hanfodol.

Gyda chynlluniau anogaeth y stydi waith i'r meiswn a seiri, yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn gwnaed llawer iawn o waith atgyweirio ac felly'n ysgafnhau dipyn ar y baich mawr o'r gwaith atgyweirio oedd i'w wneud. Roedd cynllun anogaeth mewn bod eisoes i'r peintwyr, a'r drefn yw bod gang peintio yn dilyn y siop-waith deithiol ar safle. Gwnaed llawer iawn mwy o waith gan yr adran cynhaliaeth tai fel canlyniad i'r cynlluniau anogaeth, a fydd o fudd i'r Cyngor, tenantiaid a'r gweithwyr.

Derbyniodd y Cyngor eto fenthyciad gan y Swyddfa Gymraeg o £20,000 i roi gwres-canolog mewn tai cyngor. Gall y tenantiaid ddewis rhwng gwres-canolog nwy, trydan neu glo, ac mae'r Cyngor yn goruchwylio'r gwaith o'u rhoi i mewn gan Fwrdd Nwy Cymru, Bwrdd Trydan De Cymru a Meistri Cartrefi Everwarm Cyf. mewn cydweithrediad â'r Bwrdd Nwy Cenedlaethol. Mae'r Cyngor yn talu'r Contractwyr ac mae'r tenant yn talu tâl ychwanegol bob wythnos at ei rent o hynny ymlaen, y tâl ychwanegol hwn yn dibynnu ar gost y cynllun.

National Coal Board. The Council pay the contractors and the tenant pays an additional weekly sum to his existing rental, in perpetuity, based on the capital cost of the scheme. A total of 60 schemes were installed during the year and are categorised as follows :

Solid Fuel	49
Electricity	8
Gas	3

HOUSING IMPROVEMENTS—PRIVATE SECTOR

The Housing Act, 1969, which increased the maximum discretionary grant to £1,000 had already stimulated the interest of householders in improving their properties. In June, of the year under review, a futher considerable stimulus was provided for development areas, of which this Council forms a part, with an increase in the maximum discretionary grant to £1,500. As expected, a greatly increased volume of applications were received, and during the year 191 Descretionary Grants and 25 Standard Grants received official approval, showing an increase of 25.6% over the previous year and 49.2% average increase over the previous two years as regards Discretionary Grants. This increase in the volume of grant-aided improvement schemes has imposed a tremendous increased work load on the Public Health Inspectorate, and I am again glad to report the close liaison that continues to exist with the Engineer's Department in administering the applications. Every endeavour is made to give the utmost assistance to the client and as efficiently as possible. This obviates the unnecessary delays that can sometimes arise when departments do not liaise adequately with each other. The Council have now been operating a discretionary grants scheme for over twenty years and the figures and the Council's record in this field speak for themselves.

The details of the Discretionary and Standard Grants to 31/12/71 are as follows :—

Type of Grant	Number of Dwellings Improved		Amount Paid in Grant	Average Grant per house
	Owner Occupied	Tenanted		
Discretionary	1060	629	£588,052.77p	£348.17p
Standard	246	92	£48,492.79p	£143.47p
	1306	721		
Total	2027		£636,545.56p	£314.03p

Rhoddwyd gwres canolog mewn 60 o dai yn ystod y flwyddyn a dosberthir nhw fel a ganlyn :—

Glo	49
Trydan	8
Nwy	3

GWELLIANNAU I DAI PREIFAT

Roedd pobl wedi dechrau cymryd diddordeb mewn gwella'u tai gan fod y Ddeddf Tai 1969 wedi cynyddu'r uchafswm grant dewisol i £1,000. Ym Mehefin y flwyddyn dan sylw, cynyddwyd y grant dewisol eto i £1,500 ac roedd hyn wrthgwrs yn symbyliad pellach i'r ardaloedd datblygu, ac mae'r Cyngor hwn yn un ohonynt.

Fel y gellir disgwyl, derbyniwyd llawer iawn mwy o geisiadau, ac yn ystod y flwyddyn derbyniodd 191 o Grantiau Dewisol a 25 o Grantiau Safonol gymeradwyaeth swyddogol, yn dangos cynnydd o 25.6% dros y flwyddyn flaenorol a chyfartaledd o 49.2% o gynnydd dros y ddwy flynedd flaenorol yn y Grantiau Dewisol. Mae'r cynnydd mawr yma yn nifer y cynlluniau gwella sy'n derbyn cymorth grant wedi golygu llawer iawn mwy o waith i'r Arolygwyr Iechyd Cyhoeddus, ac maen dda gen i allu dweud unwaith eto bod cydweithrediad agos wedi parhau ag Adran y Peiriannydd wrth ddelio â'r ceisiadau. Gwneir pob ymdrech i roi cymaint a fedrwn o gymorth i'r ymgeisydd a hynny mor effeithiol ag sy'n bosibl. Mae hyn yn osgoi oedi diagen a all ddigwydd weithiau pan nad yw adrannau'n cydweithredu'n hapus. Mae'r Cyngor wedi gweithredu'r cynllun grantiau dewisol nawr ers dros ugain mlynedd ac mae'r ffugurau a record y Cyngor yn y maes hwn yn siarad drostynt eu hunain.

Mae'r manylion am y Grantiau Dewisol a Safonol hyd 31/12/71 fel a ganlyn :—

Math o Grant	Nifer o anheddau wedi eu gwella		Swm a Dalwyd mewn Grant	Cyfartaledd Grant i bob tŷ
	Perchennog sy'n byw yn ei dŷ	Ar Denantiaeth		
Dewisol	1060	629	£588,052.77c	£348.17c
Safonol	246	92	£48,492.79c	£143.47c
	1306	721		
Cyfanswm	2027		£636,545.56c	£314.03c

During the year the department in accordance with the provisions of the Housing Acts 1969 and 1971 made a general survey of the rural district in order to try and ascertain the most suitable area to deal with as a General Improvement Area. In consultation with the Engineer's department it was decided that central Whitland would be the most suitable, as it is an area in which quick results could be seen as there is unlikely to be the type of opposition which might be expected in some other areas. According to the Welsh Office, this is an important point because at that time any environmental work completed before 24th June, 1973, would attract a 75% grant instead of 50%. At the time of writing the report this date has been advanced by one year. The results of the preliminary survey showed that in central Whitland practically half the number of houses are without modern amenities and that almost all the people in the area are eager to see something done to improve the surroundings.

The whole concept of a general improvement area scheme is for the local authority to improve the immediate environment of the dwellings, whilst in conjunction with this, the individual owners improve their particular homes. People are quite often deterred from improving the house itself, if the surroundings are drab and uninteresting, with nothing to be seen except grey walls, roofs and streets and no flowers or even a blade of grass to be seen from the living room. Another deterrent is the fact that even though isolated houses in an area are improved, the owner may still feel the effort not worthwhile, since as soon as he steps out of his door or looks out of a window, he can see the houses of his neighbours still in a dilapidated state. He may have the feeling that if he has to sell and move from the area, he might not get back the money spent on modernisation. He may therefore decide to save up his money for a new home and move out when he can afford to. If he decides thus though, he could find that his house is deteriorating at a rate at which his savings have to be spent on repairs rather than as a deposit.

Even if all the houses were to be improved, and the present very generous grant scheme should go some way towards this, many eyesores will still remain, and nothing will have been done to improve the immediate surroundings of the houses e.g. old dilapidated walls, fences, waste ground, and industrial or semi- industrial premises.

A General Improvement Area is a means of remedying this situation and legislation has been introduced to grant-aid local authorities in improving the environment in an area which the Council has decided to be a General Improvement Area. Examples of some work that can be grant-aided are :— tidying up neglected sites ; rebuilding garden walls and fences ; surfacing neglected and unmade alleyways ; planting trees and shrubs ; converting a street or streets into pedestrian ways, thereby making them more quiet and attractive,

Yn ystod y flwyddyn gwnaeth yr adran yn unol â gofynion y Deddfau Tai 1969 a 1971 arolwg cyffredinol o'r dosbarth gwledig er mwyn ceisio dewis yr ardal fwyaf addas i fod yn Ranbarth Gwelliant Cyffredinol. Mewn ymgynghoriad ag Adran y Peiriannydd penderfynwyd mai canol Hên Dŷ Gwyn fyddai'r mwyaf addas, gan fod hon yn ardal y gellid gweld canlyniadau buan gan nad yw'n debyg fod y math o wrthwynebiad yma y gellid ei ddisgwyl mewn ambell ardal arall. Yn ôl y Swyddfa Gymraeg mae hwn yn bwynt pwysig oherwydd yr adeg honno fe fyddai unrhyw waith ar yr amgylchedd a gwblhawyd cyn Mehefin 24ain, 1973, yn derbyn grant o 75% yn lle 50%. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad mae'r dyddiad hwn wedi ei estyn am flwyddyn arall. Dangosodd canlyniadau'r arolwg rhagarweiniol fod bron hanner y tai yng nghanol Hên Dŷ Gwyn heb y cyfleusterau modern a bod bron pawb yn yr ardal yn awyddus i weld rhywbeth yn cael ei wneud i wella'r amgylchedd.

Holl syniad cynllun Rhanbarth Gwelliant Cyffredinol yw i'r awdurdod lleol wella'r amgylchedd o gwmpas y tai, a bod y perchnogion yn unol â hyn, yn gwella'u cartrefi nhw eu hunain. Mae pobl yn aml iawn yn amharod i wella'u tai eu hunain os ydy'r tir o gwmpas yn llwydaidd ac yn anniddorol a dim byd i'w weld ond waliau llwyd, toeau a strydoedd, a dim blodau na glaswelltyn i'w weld o'r ystafell fyw. Hefyd, hyd yn oed pan wellir tai man hyn a man draw, efallai bydd y perchennog yn dal i deimlo nad yw'r gwaith werth yr ymdrech, oherwydd cyn gynted ag yr â'i allan o'i ddrws neu edrych allan drwy'r ffenestr, gall weld bod tai ei gymdogion yn dal i fod mewn cyflwr adfeiliedig. Efallai bydd ganddo'r teimlad na chaiff yr arian a wariodd ar foderneiddio yn ôl, os bydd raid iddo werthu a symud o'r ardal rywdro. Efallai y penderfynith e felly i gynilo'i arian i brynu tŷ newydd a symud allan pan all fforddio wneud hynny. Os yw e'n penderfynu gwneud hyn fodd bynnag, gall ddarganfod bod ei dŷ yn adfeilio cymaint nes ei orfodi i wario'i arian ar atgyweirio yn hytrach nag ar flaen-dâl.

Hyd yn oed os fyddai'r holl dai yn cael eu gwella ac fe ddylai'r cynllun grant presennol sy'n hael iawn fynd dipyn o'r ffordd tuag at hyn, fe fydd llawer o olygfeydd hyll yn dal ar ôl ac ni fydd dim wedi ei wneud tuag at wella'r ardal o gwmpas y tai e.e. hên waliau adfeiliedig, ffensiau, tir gwastraff ac adeiladau diwydiannol neu ran-ddiwydiannol.

Mae Rhanbarth Gwelliant Cyffredinol yn fodd i unioni'r sefyllfa ac mae deddfwriaeth wedi ei chyflwyno i roi cymorth grant i awdurdodau lleol i wella'r amgylchedd mewn ardal mae'r Cyngor wedi ei dewis yn Ranbarth Gwelliant Cyffredinol. Enghreifftiau o waith gellir cael cymorth-grant yw :—cymennu safleoedd a esgeuluswyd ; ail-godi waliau-gerddi a ffensiau ; rhoi daear galed i lwybrau a esgeuluswyd ac a adawyd ; plannu coed a llwyni ; newid stryd neu

whilst at the same time providing access for vehicles at the rear ; provision of parking bays, play areas etc. The environment of a person's dwelling is after all an immediate extension of his premises, and is obviously worthwhile to improve because it enhances the improvement to the house, and is particularly beneficial to the housewife who spends more time at home than the average male.

During the year under review no progress had been made in the declaration of the General Improvement Area at Whitland. However, at the time of writing this report, considerable progress is being made towards this end, full details of which should be published in next year's report.

UNFIT HOUSES

As in previous years, the Council again concerned itself with the individual unfit house. It was not found necessary to deal with or declare any clearance areas. Houses found unfit for human habitation and not capable of being repaired at reasonable expense are represented to the Council as unfit unless an improvement scheme has previously been agreed upon with the respective owner.

During 1971, sixteen houses were represented to the Council as unfit for human habitation in accordance with the provisions of the Housing Act, 1957. Closing or Demolition Orders were made in five cases under the appropriate section 17. Of the remainder, undertakings not to relet were accepted by the Council in some instances, improvement grant schemes were approved in principle in others and at the end of the year final decisions had not been reached on some of the properties.

A total of nineteen families comprising forty-one persons were rehoused from unfit houses during the year and six dwellings were demolished.

HOUSING ACT, 1969

QUALIFICATION CERTIFICATES

Under the provisions of the above Act, Parliament has introduced legislation for securing the decontrol of all remaining controlled tenancies and the introducing of regulated rents. As a further inducement increased improvement grants were offered to owners who were prepared to improve their properties.

To qualify for decontrol, dwelling-houses must posses the standard amenities, of bathroom, wash-hand basin, hot water supplies, internal water-closet, sink, be also in good repair and in all other

strydoedd i ffyrdd i gerdded arnynt, ac felly'n eu gwneud yn dawelach ac yn fwy deniadol, ac ar yr un pryd yn trefnu lle i gerbydau ddod i fewn o'r tu cefn ; darparu lleoedd parcio ; mannau chwarae etc. Wedi'r cyfan dim ond ymestyniad o'r tŷ yw'r tir sydd o'i gwmpas ac felly mae'n talu'r ffordd i'w wella gan fod hyn yn ychwanegu at y gwelliannau a wnaed i'r tŷ, ac mae o fudd arbennig i'r wraig tŷ sy, fel rheol, yn gwario mwy o amser gartref na'r gŵr.

Yn ystod y flwyddyn dan sylw, ni wnaed unrhyw ddatblygiad tuag at ddatgan fod Hên Dŷ Gwyn yn Ranbarth Gwelliant Cyffredinol. Fodd bynnag, adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn gwneir llawer o waith tuag at y bwriad hwn, a dylid cyhoeddi'r manylion llawn am hyn yn adroddiad y flwyydyn nesaf.

TAI ANADDAS

Fel yn y blynyddoedd cynt, mae'r Cyngor wedi ymwneud yn uniongyrchol â phob tŷ anaddas. Gwelwyd nad oedd angen delio ag unrhyw ranbarthau clirio, na'u datgan.

Dygwyd tai anaddas i ddyn fyw ynddynt ac na ellir eu hatgyweirio am bris rhesymol, i sylw'r Cyngor fel rhai anaddas oni chytunwyd ar gynllun gwella cyn hynny gyda'r perchennog priodol.

Yn ystod 1971, dygwyd unarbymtheg o dai i sylw'r Cyngor fel rhai anaddas i ddyn fyw ynddynt yn unol â gofynion y Ddeddf Tai 1957. Gwnaed gorchmynion Cau neu Ddymchwel mewn pum achos yn ôl yr adran briodol 17. O'r gweddill, cytunodd y Cyngor i beidio ag ailosod rhai ohonynt, cymeradwywyd mewn egwyddor gynlluniau grantiau gwella i eraill, ac ar ddiwedd y flwyddyn nid oeddynt wedi dod i benderfyniad terfynol ynglyn â rhai tai.

Yn ystod y flwyddyn, oherwydd tai anaddas, ail-gartrefwyd pedwar teulu ar bymtheg o bedwar deg un o bobl, a dymchwelwyd chwe tŷ.

DEDDF TAI 1969

TYSTYSGRIF CYMHWYSTER

Yn ôl gofynion y Ddeddf uchod, mae'r Senedd wedi cyflwyno deddfwriaeth i sicrhau dadreolaeth pob tenantiaeth reoledig sydd ar ôl, ac i gyflwyno rhenti regiwledig. Fel argymhelliad pellach cynigiwyd grantiau gwella uwch i berchnogion oedd yn barod i wella eu heiddo.

I deilyngu dadreolaeth, mae'n rhaid i'r tai annedd gael y cyfleusterau safonol o ystafell ymolchi, basn golchi dwylo, cyflenwad dŵr twym, closed dŵr y tu fewn, sinc, ac hefyd i fod mewn cyflwr da ac

respects fit. The local authority have to satisfy themselves that a house meets these conditions before issuing a Qualification Certificate.

The following table illustrates the number of applications received and granted during the year :—

1. **Section 45. Qualification Certificates**

Applications received	8
Applications approved	3

In the remaining 5 cases the conditions were not fulfilled.

2. **Section 46. Certificates of Provisional Approval**

Applications received and approved ...	1

FOOD CONTROL

Food Hygiene is becoming an increasingly important part of the department's work as the tourist potential of the Council's area begins to be realised. More cafes and restaurants of a good hygienic standard are opening each year to cater for the tourists needs and it is those restaurants which are seen by tourists to be the most clean and attractive ; which are the most successful.

Good food premises of all kinds can do as much as anything else to boost tourism in the area. The public health inspector's experience is invaluable in this field of promoting good food hygiene in food premises and mobile food vans. Tourism is becoming an increasingly important part of the local economy. The inspector's help and advice in the field of food hygiene especially in an industry which employs a high percentage of casual and student labour cannot be over emphasised. The additional money spent in inspector's salaries engaged in ensuring good food hygiene will pay for itself over and over again in an increasing flow of tourists into the area and of injecting money into the local economy which ultimately leads to an increase in both permanent and short term employment opportunities. If food hygiene supervision is neglected and bad hygienic conditions arise, then tourists will come to the area only once, and not come back again. It can be seen that good food hygiene and hygienic conditions generally are good business, not only for the traders themselves but also for the Council in increased rateable values. These conditions can only be assured by good supervision.

The main credit for good hygiene in food premises must be with the traders themselves who translate regulations and advice into good hygienic conditions and to the public who having seen good conditions now demand them.

A total of 380 visits were made to registered and other food premises in the area, details of which are shown in the table appended below :—

yn addas ym mhob ffordd arall. Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau fod tŷ yn ateb y gofynion hyn cyn rhoi Tystysgrif Cymhwyster.

Mae'r dabl ganlynol yn dangos nifer y ceisiadau a dderbyniwyd ac a ganiatawyd yn ystod y flwyddyn :—

1. **Adran 45 Tystysgrifau Cymhwyster**

Ceisiadau a dderbyniwyd	8
Ceisiadau a gymeradwywyd	3

Yn y 5 achos arall, doedd yr amgylchiadau ddim yn foddhaol.

2. **Adran 46 Tystysgrifau o Gymeradwyaeth Dros Dro**

Ceisiadau a dderbyniwyd ac a gymeradwywyd	1

RHEOLI BWYD

Mae Hylendid Bwyd yn dod yn rhan fwy a mwy pwysig o waith yr adran fel y dechreuir sylweddoli posibilrwydd twristiaeth yn yr ardal. Mae mwy o gaffis a bwytai o safon hylendid da yn agor bob blwyddyn i ddarparu ar gyfer anghenion y twristiaid, a'r bwytai hynny sy fwyaf glân a deniadol yng ngolwg y twristiaid yw'r rhai mwyaf llwyddiannus.

Gall adeiladau bwyd da o bob math wneud cymaint â dim byd arall i hybu twristiaeth yn yr ardal. Mae profiad yr arolygwr iechyd cyhoeddus o werth amhrisiadwy yn y maes hwn o hyrwyddo hylendid bwyd da mewn adeiladau bwyd a faniau-bwyd teithiol. Mae twristiaeth yn dod yn rhan fwy a mwy pwysig o'r economi lleol. Ni ellir gorbwysleisio cymorth a chyngor yr arolygwr ym maes hylendid bwyd yn enwedig mewn diwydiant sy'n cyflogi canran uchel o weithwyr achlysurol a myfyrwyr. Fe fydd yr arian ychwanegol a werir ar gyflogau'r arolygwyr sy'n sicrhau hylendid da, yn talu am ei hun drosodd a throsodd yn y llif cynyddol o dwristiaid a ddaw i'r ardal, ac yn dod ag arian i fewn i'r economi lleol sy'n arwain yn y pen draw i fwy o gyfle am waith parhaol a gwaith dros-dro. Os esgeulusir goruchwyliaeth hylendid bwyd a hyn yn arwain i amodau hylendid gwael, yna fe ddaw twristiaid i'r ardal unwaith yn unig a byth eto. Gellir gweld fod hylendid bwyd da ac amodau hylendid yn gyffredinol yn fusnes da nid yn unig i'r masnachwyr eu hunain ond hefyd i'r Cyngor mewn gwerth trethiannol uwch. Gellir sicrhau'r amodau hyn yn unig gan oruchwyliaeth dda.

Rhaid rhoi'r rhan fwyaf o'r clod am hylendid da mewn adeiladau bwyd i'r masnachwyr eu hunain sy'n troi rheoliadau a chynghorion yn amodau hylendid da, ac hefyd i'r cyhoedd, sydd, ar ôl gweld amodau da, nawr yn eu hawlio.

Gwnaed cyfanrif o 380 o ymweliadau i adeiladau a gofrestrwyd, ac i eraill, yn yr ardal, a gweler y manylion yn y dabl isod.

Type of Premises	No. of Premises	No. of Visits	Complied with Regulation 16 (wash hand basins) No.	Regulation 19 Appicable	Complied with Regulation 19 (food washing equipmcnt) No.
Butcher Shops including Preserved Meat Premises	22	76	22	22	22
Wholesale Meat Premises	2	6	2	2	2
Catering Establishment	34	58	33	34	34
Bakehouses	10	11	10	10	10
Fish, Fruit and Vegetable Shops, Grocers & General Provisions	222	115	120	110	110
Ice-Cream Premises ... (Registered)	126	59	126	126	126
Ice-Cream Factories ... (Registered)	1	17	1	1	1
Fish and Chip Shop ...	6	4	6	6	6
Licensed Premises ...	90	19	83	89	87
Poultry Processing Plants	1	15	1	1	1
Total	514	380	404	401	399

The following is the estimated number of mobile food vans operating in the area and the type of food sold by them :—

Ice-Cream Vans	65
Grocers/Bakers	52
Butchers	15
Others	14

In addition some 80 vans enter the area from outside.

Apart from the normal routine inspections of vans, food stalls at the annual fairs held throughout the district are inspected when they are stationed at the various villages.

Math o Adeilad	Nifer yr adeiladau	Nifer yr ymweliadau	Nifer a gydsyniodd â Rheoliad 16 (basnau golchi dwylo)	Rheoliad 19 yn ymwneud â nhw	Nifer a gydsyniodd â Rheoliad 19 (cyfarpar golchi bwyd)
Siopau Cig yn cynnwys Adeiladau Cig Cadw	22	76	22	22	22
Adeiladau Cig Cyfanwerthol	2	6	2	2	2
Sefydliadau Darmerth...	34	58	33	34	34
Tai Popty	10	11	10	10	10
Siopau pysgod, ffrwythau a bwydlysiau, Groser a Darpariaethau Cyffredinol...	222	115	120	110	110
Adeiladau Hufen-iâ (Cofrestredig) ...	126	59	126	126	126
Ffatrïoedd Hufen-iâ (Cofrestredig) ...	1	17	1	1	1
Siopau Sglodion a Physgod	6	4	6	6	6
Adeiladau Trwyddedig	90	19	83	89	87
Lle i ladd a pharatoi Dofednod	1	15	1	1	1
Cyfanrif	514	380	404	401	399

Mae'r canlynol yn amcangyfrif o nifer y faniau-bwyd teithiol sy'n gwasanaethu'r ardal a'r math o fwyd a werthir ganddynt :—

Faniau Hufen Iâ	65
Groser/Bara	52
Cig	15
Eraill	14

Yn ychwanegol, mae tua 80 o faniau yn dod i'r ardal o'r tu allan.

Ar wahân i arolygu faniau sy'n rhan o'n gwaith beunyddiol, arolygir stondinau bwyd yn y gwahanol bentrefi pan gynhelir ffeiriau blynyddol yn yr ardal.

UNSOUND FOOD

The following is a summary of the type of food examined and condemned at food premises, excluding meat and offal condemned in the five private abattoirs within the Council's area :—

Meat, Fish etc., at wholesale shops ...	115lbs.
Canned foods including meat and frozen foods	300¼lbs.

The majority of these condemned products were brought to the attention of the deparment by the traders concerned.

Four food complaints were received by the department and investigations resulted in satisfactory conclusions.

PRIVATE SLAUGHTERHOUSES

There are five privately-owned licensed slaughterhouses in the rural district and all were in operation throughout the year. Regular inspections of the slaughterhouses are carried out to ensure that premises and slaughtering practices are up to the required standards. All animals slaughtered are inspected by the Public Health Inspectors and meat passed as fit for human consumption is marked with the distinguishing stamp of the inspector before the meat and offal is removed for sale.

A total of 487 visits were made to the slaughterhouses during the year and the following number of animals were slaughtered.

Cattle	580
Cows	72
Calves	1206
Sheep and Lambs	5695
Pigs	610

SLAUGHTER OF ANIMALS ACT, 1958

There were 14 licences for slaughtermen in force during the year. Licences are renewed annually.

BWYD ANADDAS

Mae'r canlynol yn grynodeb o'r math o fwyd a archwiliwyd ac a gondemniwyd ar adeiladau bwyd, heb gynnwys cig a syrth a gondemniwyd yn y pum lladd-dŷ preifat o fewn ardal y Cyngor :—

Cig, Pysgod etc. mewn siopau cyfanwerthol	115pwys.
Bwydydd tun yn cynnwys cig a bwydydd rhewedig	300¼pwys.

Dygwyd y rhan fwyaf o'r cynnyrch condemniedig hwn i sylw'r adran gan y masnachwyr priodol.

Derbyniwyd pedwar cwyn ynglŷn â bwyd gan yr adran ac ar ôl ymchwiliadau cafwyd canlyniadau boddhaol.

LLADD-DAI PREIFAT

Mae pump o ladd-dai preifat trwyddedig yn y dosbarth gwledig ac roedd pob un o'r pump yn gweithredu drwy'r flwyddyn. Gwneir arolygiadau rheolaidd o'r lladd-dai o sicrhau bod yr adeiladau a'r dulliau lladd i fyny i'r safon angenrheidiol. Arolygir yr holl anifeiliaid a leddir gan yr Arolygwyr Iechyd Cyhoeddus, a nodir y cig a basiwyd yn addas fel lluniaeth ddynol gyda stamp arbennig yr arolygwr cyn symud y cig a'r syrth i'w werthu.

Gwnaed 487 o ymweliadau â'r lladd-dai yn ystod y flwyddyn a lladdwyd y nifer canlynol o anifeiliaid.

Gwartheg	580
Buchod	72
Lloi	1206
Defaid ac Ŵyn	5695
Moch	610

DEDDF LLADD ANIFEILIAID 1958

'Roedd 14 o drwyddedau i laddwyr mewn grym yn ystod y flwyddyn. Adnewyddir y trwyddedau bob blwyddyn.

Carcases and Offal inspected and condemned in whole or in part

		Cattle excluding Cows	Cows	Calves	Sheep and Lambs	Pigs	Horses or Others
Number killed		580	72	1206	5695	610	Nil
Number inspected		580	72	1206	5695	610	Nil
All diseases EXCEPT Tuberculosis and Cysticerci	Whole carcases condemned	1	4	2	1	1	Nil
	Carcases of which some part or organ was condemned	234	42	8	572	22	Nil
Percentage of the number inspected affected with disease other than Tuberculosis or Cysticerci		40.48%	63.88 %	0.83%	10.06%	3.77%	Nil
Tuberculosis ONLY	Whole carcases condemned	Nil	Nil	Nil	Nil	Nil	Nil
	Carcases of which some part or organ was condemned	Nil	Nil	Nil	Nil	Nil	Nil
Percentage of the number inspected affected with Tuberculosis		Nil	Nil	Nil	Nil	Nil	Nil
Cysticercosis	Carcases of which some part or organ was condemned	Nil	Nil	Nil	Nil	Nil	Nil
	Carcases submitted for treatment by refrigeration	Nil	Nil	Nil	Nil	Nil	Nil
	Generalised and totally condemned	Nil	Nil	Nil	Nil	Nil	Nil

Total amount of Meat and Offal condemned at slaughterhouses 1 ton 12 cwts 64 lbs.

Celanedd a Syrth a archwiliwyd a'r cyfan neu ran ohonynt wedi eu condenmnio

		Gwertheg heb gynnwys buchod	Buchod	Lloi	Defaid ac Wŷn	Moch	Ceffylau neu Eraill
Nifer a laddwyd		580	72	1206	5695	610	Dim
Nifer a archwiliwyd		580	72	1206	5695	610	Dim
Pob clefyd HEBLAW Tuberculosis a Cysticerci	Celanedd cyfain a gondemniwyd	1	4	2	1	1	Dim
	Celanedd y condemniwyd rhyw ran neu organ ohonynt	234	42	8	572	22	Dim
Canran y nifer a archwiliwyd ac a effeithiwyd gan glefyd heblaw Tuberculosis neu Cysticerci		40.48%	63.88 %	0.83%	10.06%	3.77%	Dim
Tuberculosis YN UNIG	Celanedd cyfain a gondemniwyd	Dim	Dim	Dim	Dim	Dim	Dim
	Celanedd y condemniwyd rhyw ran neu organ ohonynt	Dim	Dim	Dim	Dim	Dim	Dim
Canran y nifer a archwiliwyd a effeithiwyd gan Tuberculosis		Dim	Dim	Dim	Dim	Dim	Dim
Cysticercosis	Celanedd y condemniwyd rhyw ran neu organ ohonynt	Dim	Dim	Dim	Dim	Dim	Dim
	Celanedd a gyflwynwyd i driniaeth oergell	Dim	Dim	Dim	Dim	Dim	Dim
	A gyffredinolwyd ac a gondemniwyd yn llwyr	Dim	Dim	Dim	Dim	Dim	Dim

Cyfanswm y Cig a Syrth a gondemniwyd mewn lladd-dai yw 1 dunnell 12 cant 64 pwys.

ICE CREAM MANUFACTURING AND RETAIL PREMISES

The total number of premises registered for the sale and storage of ice-cream is 126.

There is one factory at Pendine which manufactures a considerable quantity of ice-cream and supplies it to shops all over West Wales and parts of England. There are approximately fifty vans, operating from the factory, which sell ice-cream at most of the beaches in South West Wales. During the year, the plant was expanded to allow more speciality ice-creams, lollies and family blocks to be made in addition to ice-cream for wafers and cones. The storage accommodation was also increased.

The number of samples taken during the year and their results were as follows :—

Grade	No. of Samples
1	19
2	7
3	9
4	11

Grades 1 and 2 are satisfactory whereas Grades 3 and 4 indicate a deficiency in the hygienic quality of manufacture and/or sale of the finished product.

POULTRY INSPECTION

Poultry inspection is carried out as a routine by the Public Health Inspectors during the course of normal food hygiene inspections of butchers and grocers shops, particularly during the periods of heavy demand, such as Christmas, when numbers of fresh birds are on sale.

One large poultry processor at Clynderwen killed approximately 5,000 Turkeys during the two weeks prior to Christmas. Suspect birds were laid aside for subsequent examination by the Public Health Inspector who carried out five visits during the period to the premises.

THE LIQUID EGG (PASTEURISATION) REGULATIONS, 1963

(i) Number of egg pasteurisation plants in the district)
(ii) Number of samples of liquid egg submitted to the) Nil
Alpha-Amylase test)

ADEILADAU GWEITHGYNHYRCHU AC ADWERTHU HUFEN-IÂ

Cyfanrif y nifer o adeiladau a drwyddedwyd i werthu a storio hufen-iâ yw 126.

Mae un ffatri ym Mhentwyn sy'n gweithgynhyrchu llawer iawn o hufen-iâ ar gyfer siopau dros holl Orllewin Cymru a rhannau o Loegr. O'r ffatri hon mae tua hanner cant o faniau'n mynd allan ac yn gwerthu hufen-iâ ar y rhan fwyaf o draethau De-Orllewin Cymru. Yn ystod y flwyddyn ehangwyd y busnes er mwyn gallu cynhyrchu hufen-iâ o nodwedd arbennig, lolipops a blociau-teulu yn ychwanegol at hufen-iâ ar gyfer 'wafers' a 'cones'. Ychwanegwyd hefyd at y lle storio.

Nifer y samplau a gymerwyd yn ystod y flwyddyn a'u canlyniadau oedd fel a ganlyn :—

Gradd	Nifer y Samplau
1	19
2	7
3	9
4	11

Mae graddau 1 a 2 yn foddhaol tra bo graddau 3 a 4 yn dynodi diffyg yn ansawdd hylendid y gweithgynhyrchu ac/neu yng ngwerthiant y cynnyrch parod.

AROLYGU DOFEDNOD

Mae'r Arolygwyr Iechyd Cyhoeddus yn arolygu dofednod fel rhan o'u gwaith beunyddiol o arolygu hylendid bwyd yn y siopau cig a siopau groser, yn enwedig yn ystod y cyfnodau prysur iawn, fel y Nadolig, pryd mae llawer iawn o rai ffres ar werth.

Lladdodd un sy'n magu llawer iawn o ddofednod yng Nghlynderwen tua 5,000 o dwrcïod yn ystod y pythefnos cyn y Nadolig. Gosodwyd naill ochr y rhai amheus i'w harchwilio gan yr Arolygwr Iechyd Cyhoeddus a fu'n ymweld â'r ile bum gwaith yn ystod y cyfnod hwnnw.

RHEOLIADAU YR WYAU HYLIF (PASTEUREIDDIAD) 1963

(i) Nifer yr offeriannau pasteureiddio wyau yn yr ardal)
(ii) Nifer y samplau ŵy hylif a roddwyd i'r prawf) Dim
Alpha-Amylase)

MILK SAMPLING

The County Council is the licensing Authority for the area, and at the end of the year there were 62 producer/retailers and 55 dealers licenced. The processing part of the heat treatment plant in the area is also the responsibility of the County Council as the Food and Drugs Authority. The Rural District Council is however concerned with all other aspects of dairy premises.

To avoid duplication of visits, as regards milk sampling, there is a standing arrangement with the County Council and the Ministry of Agriculture, Fisheries and Food whereby samples taken by the Ministry's Officers for other purposes are also examined for Brucella abortus organisms. All samples are subjected to the Ring Test and the department is informed immediately of any positive results.

During the year, the following number of milk samples were taken by the department and submitted to the Public Health Laboratory, Glangwili, Carmarthen for analysis :—

7 bulk milk samples from one farm—the results proved negative to the Brucella Ring Test.

